# SUL CYFFREDIN 16

**1 BRENHINOEDD 8[1, 6, 10-11] 22-30, 41-43; SALM 84; EFFESIAID 6:10-20; IOAN 6:56-69**

● **Gweddi agoriadol**

Yn ein cyfarfod ynghyd,
dygwn atat y rheini i gyd
a fyddai yma
onibai am eu llesgedd;
gofynnwn am iddynt adnabod
llawenydd dy bresenoldeb
ble bynnag y maent,
a, chan ymuno â ni yn yr ysbryd
yn yr offrwm moliant hwn,
gael eu bendithio fel ninnau.

● **Moliant**

Bendithiwyd ni yn wir,
ni sy'n ymddiried ynot,
sy'n byw i wasanaethu
ac ar ein taith ffydd
yn mynd ble rwyt yn ein harwain.

Bendithiwyd ni yn wir,
ni  a ganfu ein nerth ynot ti,
sy'n ceisio dy wyneb
ac yn clywed y sibrwd tawel
wrth i ti ein calonogi.

Bendithir ni yn wir,
ni sy'n ymgrymu i'th addoli,
ac wedyn yn mynd allan
mewn ffydd i gyflawni'r tasgau
a ddarperaist ar ein cyfer.

● **Cyffes**
Maddau i ni, Arglwydd,
pan ddibynnwn ar ein nerth ein hunain,
nid dy nerth di,
methu defnyddio
yr arfbais ysbrydol a ddarperi,
a chael ein clwyfo yn y frwydr.

Maddau i ni, Arglwydd,
pan anghofiwn dy ddarpariaeth
a'th gariad,
a gwrando yn hytrach
ar leisiau taer y byd hwn,
ac ymbalfalu i wybod beth sy'n iawn.

Tyn ni'n agos, Arglwydd;
arfoga ni â phopeth sydd ei angen arnom;
grymusa ni;
cadarnha ein ffydd
fel y gallwn wynebu'r byd hwn
dan faner dy oleuni.

## ● Diolch

Yn dy air, O Arglwydd,
gallwn ymddiried;
atat ti gallwn droi
pan fydd yn anodd ymdopi,
pan fydd ffydd wedi'i drysu
a ninnau'n chwilio am ddoethineb.

Yn dy air, O Arglwydd,
gallwn ymddiried;
atat ti gallwn droi
pan fo'r byd yn cau amdanom,
pechod yn ein llusgo i'r llawr
a ninnau nôl wrth dy draed.

Yn dy air
canfyddwn lawnder a heddwch,
digon i'r diwrnod.
Yn dy air
canfyddwn  obaith at yfory,
y fath dosturi a gras.
Yn dy air, O Arglwydd,
gallwn ymddiried
yn llwyr.